

## DATGANIAD I'R WASG

[Dyddiad]

### Mae [ENW EICH SEFYDLIAD] yn ymuno â'r ymgyrch i bobl 'ddechrau'r sgwrs' i wella eu lles ariannol

- Mae Wythnos Siarad Arian (3-7 Tachwedd) yn ysbrydoli pobl i siarad am arian yn agored a gyda hyder.
- Mae'r wythnos yn cael ei harwain gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'i chefnogi gan gannoedd o sefydliadau.
- Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn dweud "mae'n bryd siarad am fanylion" a helpu pawb i wella eu lles ariannol.

Mae [sefydliad] yn gofyn i bobl 'ddechrau'r sgwrs' i wella eu lles ariannol fel rhan o Wythnos Siarad Arian y Gwasanaeth Arian a Phensiynau.

Bydd yn cael ei chynnal rhwng 3-7 Tachwedd, nod Wythnos Siarad Arian yw lleihau'r stigma ynghylch arian trwy annog sgysiau ymhlith pawb, o deuluoedd a ffrindiau i gydweithwyr a chymunedau.

Fel rhan o'r thema eleni, mae [Sefydliad] yn gofyn i bawb gymryd rhan a 'dechrau'r sgwrs'. P'un a yw'n sgwrs gyflym am gyllidebu gyda phartner, cwestiwn i weithiwr pensiynau proffesiynol, neu gyflwyno'r cysyniad o gynilion i blentyn, mae 'dechrau'r sgwrs' yn cynnig cam cyntaf tuag at weithredu. Nid oes angen i sgysiau am arian fod yn berffaith – ond mae angen iddynt ddigwydd

Fel rhan o'r wythnos, bydd [sefydliad] yn cynnal [gweithgaredd/ymgyrch/digwyddiad \[Rhowch fanylion y digwyddiad a nod y gweithgaredd\]](#).

Bydd gweithgareddau hefyd ar draws [y DU / Lloegr / Yr Alban / Cymru] i gael mwy o bobl i siarad am arian ac i ymgysylltu â phynciau fel defnyddio credyd, cynilo'n rheolaidd, cynllunio ar gyfer ymddeol, delio â dyled, ac addysgu plant am benderfyniadau ariannol.

Yn 2024, cefnogwyd Wythnos Arian Siarad gan sefydliadau gan gynnwys banciau mawr, adrannau amrywiol y llywodraeth, Ymddiriedolaethau'r GIG ledled y DU, ac elusennau gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a Money and Mental Health.

Mae cymryd rheolaeth o arian, siarad yn agored amdano a rhannu'r baich y gall pryderon ei achosi yn aml yn cael effaith enfawr ar ein hiechyd a'n perthnasoedd. Mae hefyd yn helpu rhywun i wneud penderfyniadau gwell, mwy gwybodus.

Dywedodd [Enw], [Teitl] o [Sefydliad]:

"[Mewnysod dyfyniad]."

Meddai Oliver Morley, Prif Weithredwr Gwasanaeth Arian a Phensiynau:

"Gall siarad am arian gyda ffrindiau, teulu a phlant - neu arbenigwyr os oes angen - eich helpu i deimlo'n fwy hyderus a rhoi mwy o wydnwch ariannol i chi. Dyna pam, fel rhan o'n hymgyrch flynyddol Wythnos Siarad Arian, rydym yn galw arnoch i 'ddechrau'r sgwrs'.

"Nid oes angen i sgysiau am arian fod yn berffaith – ond mae angen iddynt ddigwydd. Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd gwybod ble i ddechrau ac felly mae gennym yr holl syniadau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnoch ar ein gwefan, ynghyd â'r teclynnau i chi ddechrau.

"P'un a yw'n rhywbeth bach, fel sgwrs gyflym gyda'ch partner am gyllidebu, neu rywbeth mwy, fel gwneud penderfyniad hirdymor gwybodus, dyma'r cyfle i bawb gymryd rhan a dechrau siarad am arian, gyda'i gilydd."

Am ragor o wybodaeth am Wythnos Siarad Arian ewch i [www.maps.org.uk/cy/talk-money-week](http://www.maps.org.uk/cy/talk-money-week)

**-DIWEDD-**

**Ar gyfer ymholiadau gan y cyfryngau, cysylltwch â:**

- [Eich Enw], [Rhif] neu [E-bost]
- Swyddfa'r wasg MaPS 020 8132 5284 / [media@maps.org.uk](mailto:media@maps.org.uk)

### **Ynglŷn ag Wythnos Siarad Arian**

Mae Wythnos Siarad Arian yn ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus flynyddol, sy'n cael ei rhedeg gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, i gael y genedl i gael sgysiau am arian. Mae siarad am gyllid wedi'i ddangos i helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus a llai peryglus, teimlo llai o straen neu bryder a theimlo mwy o reolaeth, cynnal perthnasoedd personol cryfach, a helpu eu plant i ffurfio arferion arian da am oes. Bydd Wythnos Siarad Arian yn cael ei chynnal rhwng 3-7 Tachwedd 2025.

### **Ynglŷn â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau**

Ein gweledigaeth yw "Pawb yn gwneud y gorau o'u harian a'u pensiynau."

Rydym yn cynnig cymorth ac arweiniad diduedd am ddim ar arian a phensiynau drwy [www.moneyhelper.org.uk](http://www.moneyhelper.org.uk) a 0800 138 7777. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ystod o declynnau am ddim, ynghyd â'r cyfle i siarad ag arbenigwr trwy WhatsApp, dros y ffôn, trwy e-bost neu ar sgwrs fyw.

Rydym hefyd yn cydlynu Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol, gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i helpu pawb i ddod o hyd i'w ffordd ymlaen ac adeiladu dyfodol ariannol gwell.

Rydym yn gorff hyd braich, sydd wedi'i noddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac wedi'i ariannu gan ardollau ar y diwydiant gwasanaethau ariannol a chynlluniau pensiwn. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#) neu'n [cynllun corfforaethol blynyddol a strategaeth](#).

### **Ynglŷn â Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol**

Mae Strategaeth y DU ar gyfer Lles Ariannol yn sefydlu pum "agenda ar gyfer newid" ac yn gosod nodau i'w cyflawni erbyn 2030. Y rhain yw:

- Sylfaen Ariannol: 2 filiwn yn fwy o blant a phobl ifanc yn cael addysg ariannol ystyrlon
- Cenedl o gynilwyr: 2 filiwn yn fwy o bobl o oedran gweithio sy'n cael trafferth i gynilo'n rheolaidd
- Cyfrif Credyd: 2 filiwn yn llai o bobl yn aml yn defnyddio credyd i dalu am fwyd neu filiau
- Gwell Cyngor ar Ddyledion: 2 filiwn yn fwy o bobl yn cael y cyngor ar ddyledion sydd ei angen arnynt; Ar hyn o bryd dim ond 32% o'r rhai sydd angen cyngor ar ddyledion sy'n cael mynediad ato
- Ffocws ar y Dyfodol: 5 miliwn yn fwy o bobl yn deall digon i gynllunio ar gyfer eu bywydau diweddarach, ac yn ystod eu bywydau

Mae rhagor o wybodaeth am Strategaeth y DU ar gael ar [www.maps.org.uk/wellbeing](http://www.maps.org.uk/wellbeing)